

Beirniadaeth Cystadleuaeth383
Rhyddiaith Bl 7 - Anghofio
Beirniad – Hannah Roberts

Yn gyntaf diolch i bawb wnaeth gystadlu yn y gystadleuaeth hon, 'roedd rhywbeth i'w ganmol ym mhob un bron. Cofiwch taw chwaeth bersonol beirniad yw beirniadaeth, dyma fy newis i, hwyrach pe bae rhywun arall wrthi y byddai'r canlyniad yn hollol wahannol.!!!

Dyma'r rhai wnaeth dynu'n sylw i.

WIL CWAC CWAC—Anghofio anrheg i ben blwydd Mam—
rhoi CARIAD yn lle!!!Da.
BOI O'R BALA---yn gredadwy iawn.

TROPHY HYWEL—Dechrau gafaelgar—hoffi “for o filwyr”—
iaith lan ac ystwyth a digon o ddychymyg. Ydweud yn y
presennol yn digwydd o flaen ein llygaid ac yn gwneud y stori'n
fyw, wedi'i saernio'n grefftus a'r dechrau a'r diwedd yn gylch
cyfan Da iawn.

Y CYMRO---Disgrifiadol iawn e e “croen yn esmwyth fel
sidan” eto—pen ol bodlon—styllod cyffyrddus Mae naws y
bardd fan hyn e e “breichiau'n gafael yn dyn yn yr awyr iach”--
-hyfryd.—delweddau da ac iaith glan a gofalus Da Iawn
Pe byddai wedi bod hawl i rannu'r 3edd wobr byddai wedi
mynd i
naill ai TROPHY HYWEL neu Y CYMRO Llongyfarchion,

HAFAN DEG.----Dwli ar y gymhariaeth am Mamgu “gwallt fel
cymylau gwlan cotwm” stori a iaith lan gofalus. Da.

LLWYNOG.---delweddau da---“unigrwydd yn grafanc yn
gwasgu amdani”—“distawrwydd y llofft yn flanced oer”—cadw
cysondeb delweddol, -Da,--eto “y ffon fel gelyn bach yn poeri
gwenwyn yn y cornel” Da iawn.

E T.---stori'n llawn dychymyg wedi ei chynllunio'n ofalus.

FFYRGI BACH.—Mae neges yn y stori ma sef nid BYW yw technoleg!! anghofio ffon ar wyliau'n ddim yn ddiwedd y byd,yma, mae ei berchennog yn darganfod byw allan yn yr awyr iach yn lle.

GARETH BALE---mwynheais yr hanes yma a'r diwedd glo yn codi gwen.

DRAIG GOCH CMRU---Stori am y lleuad disgrifiadau da manwl llawn dychymyg.

DERYN Y SI----Syniad hyfryd o agor bocs atgofion—stori aeddfed a phersonoli da e e “anadl y tai”—yr haul yn chwythu'r tywyllwch i ffwrdd” dwli ar “dihatru yr anrhegion” delweddi hyfryd Da iawn.

SA I'N GWYBOD---hanes teimladwy iawn—meddwl am sefyllfaoedd pobol eraill yn ein byd syn dysgu gwers bwysig i ni a'n hysfa am y dechnoleg ddiweddaraf—gormod o ddim nid yw dda.

RAMSEY WILLIAMS---sori rhwydd i'w darllen wedi ei mwynhau.

OGOF LLYWELYN—stori yn llawn hanes Cymru —da iawn ti.

CAU DRWS---naws amaethyddol hyfryd fan hyn'hoffi enwau'r caeau Rhos y Pinc mor bert, stori wahannol—mas o'r ysgol, y cartef a dim technoleg yn agos, at rhywbeth naturiol—yr awyr agored---Rhyddhad!!!!Mynegiant cywir, llyfn a chynnil mwynheais y darllen. Hiwmor iach-- “Heinz yn gymaint o ffrind a Bear grills.

DRAIG GOCH---gwylio gem rygbi sy' fan hyn,a stori
hanesyddol o'i mewn—gorffen gyda neges bwysig “Os nad yw
e'n fawr me e'n ddigon”.